

Cronfa Caryl & Henry Bettws (Casnewydd)



Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol

Mae Cronfa Caryl a Henry Bettws yn ceisio cefnogi prosiectau a gweithgareddau iechyd a lles cymunedol ym mhlwyf Betws, Casnewydd. Bydd y gronfa yn blaenoriaethu grwpiau a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â'r themâu canlynol:

- Prosiectau sy'n hyrwyddo ymgysylltiad cadarnhaol teuluoedd a phobl ifanc.
- Prosiectau i leihau unigedd pobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n cael trafferth gydag effeithiau dementia.
- Syniadau digwyddiadau cymunedol i ddathlu datblygiad cymdeithasol a diwylliannol.

Grantiau ar gael

Byddwn yn gwahodd grwpiau/sefydliadau i wneud cais o ardal Betws, gyda'r nod o ariannu o leiaf 9 sefydliad gyda grant o £2,000.



Pwy all wneud cais?

Mae'r mathau canlynol o grŵp/sefydliadau, gydag incwm blynyddol o hyd at £500,000, yn gymwys i wneud cais:

- Grwpiau cymunedol elusennol nad ydynt wedi'u cofrestru.
- Cwmnïau cyfyngedig nid er elw.
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol.
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol.
- Mentrau Cymdeithasol.
- Sefydliadau cenedlaethol sydd â changen sy'n gweithio o fewn Betws (e.e. Sgowtiaid).
- Ysgolion a darparwyr addysg, cyn belled â bod y cyllid ar gyfer gweithgaredd nad yw fel arfer yn dod o dan bennawd darpariaeth statudol.

Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:

- ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.
- rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

